Ar gyfer gweithwyr llyfrgell a gwybodaeth For library and information professionals

+44 (0)20 4513 2831

info@cilip.org.uk

www.cilip.org.uk

Cyngor Sir Ddinbych

Annwyl Gynghorwyr

Ysgrifennaf ar ran CILIP Cymru Wales, i annog Cyngor Sir Ddinbych i ystyried yr effaith bydd toriadau i oriau agor llyfrgelloedd yn cael ar boblogaeth Sir Ddinbych.

Mae CILIP, Cymdeithas Siartredig Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yn llais annibynnol blaenllaw yn y Deyrnas Unedig ar gyfer y proffesiwn llyfrgelloedd a rheolaeth gwybodaeth.

Mae darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn statudol o dan y Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 ac yn gwaredu ar bob un o'r saith o nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn hanfodol yn sicrhau mynediad at lyfrau, yn gwella llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn y ddarpariaeth o'r sgiliau craidd ar gyfer pob oedran, mewn mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol, a chefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan allweddol yn y gefnogaeth i strategaeth gyfredol y Cyngor ar eithrio digidol drwy ddarparu mynediad am ddim i rai sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref, a darparu buddion sylweddol democrataidd, cymdeithasol, ac economaidd i ddinasyddion a chymunedau, yn ogystal ag helpu pobl i chwilio am swyddi a budd-daliadau. Mae Llyfrgelloedd hefyd wedi bod yn hanfodol yn darparu mannau cynnes yn ystod yr argyfwng cost o fyw cyfredol.

Yn ôl y National Literacy Trust, mae 1 o bob 8 oedolyn yn Gymru â diffyg sgiliau llythrennedd sylfaenol. Drwy beidio â sicrhau cyllid digonol ar gyfer gwasanaethau llyfrgell leol sydd yn cefnogi mynediad i sgiliau sylfaenol a digidol, mae Cyngor Sir Ddinbych mewn peryg o adael eu poblogaeth ar ôl yn Economi Digidol heddiw. Gwasanaeth allweddol a gynigir gan holl lyfrgelloedd Sir Ddinbych yw cynhwysiad digidol – mynediad i ddefnydd am ddim o'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron. Yn ôl Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2021-20221 Sir Ddinbych mae llyfrgelloedd yn bartner allweddol yn y prosiect i leihau eithrio digidol o fewn y Sir. Pe byddai'r toriadau arfaethedig yn cael eu gweithredu bydd effaith andwyol ar allu'r Cyngor i leihau eithrio digidol a gwella sgiliau llythrennedd safonol. O ganlyniad bydd bwlch economaidd ag addysgol yr awdurdod yn cynyddu, yn enwedig mewn ardaloedd o'r sir sydd eisoes dan anfantais economaidd, fel Y Rhyl[2].

Ar gyfer Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2021-20221 mae Sir Ddinbych yn cwrdd â phob un o'r 12 gofynion craidd. Un o'r gofynion craidd yw i "ddarparu mynediad at amrywiaeth o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau i gefnogi dysgu, lles a datblygiad personol" ar gyfer pawb mewn cymdeithas gan gynnwys y bregus, yr henoed, plant ag unigolion a grwpiau ag anghenion arbennig. Mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda nifer o fudiadau ac yn darparu amryw o wasanaethau a gweithgareddau sy'n darparu ymyrraeth gynnar yn erbyn tlodi, iechyd gwael, ayyb. Byddai lleihad mewn oriau agor yn sicrhau arbedion tymor-byr; ar y llaw arall byddai buddion llyfrgelloedd wrth gefnogi iechyd a llesiant a mynediad i wasanaethau digidol yn lleihau ag o ganlyniad bydd galw'r gymuned ar wasanaethau eraill yn cynyddu gan gynyddu'r gost o'u darparu yn y tymor hir.

Yn ôl Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus 2019-20201  mae Sir Ddinbych yn dathlu fod oriau agor llyfrgelloedd y sir wedi aros yn un fath ers dechrau adrodd ar berfformiad yn erbyn y Fframwaith. Byddai'r toriadau arfaethedig i'r oriau agor yn golygu na fyddai Sir Ddinbych yn gallu adrodd eu bod yn cwrdd â'r hawliau craidd yn llawn.

Er ein bod yn cymeradwyo penderfyniad Cyngor Sir Ddinbych i beidio cau llyfrgelloedd, rydym yn apelio arnynt i ail-ystyried gostyngiad o 50% yn oriau agar a fydd yn cael effaith ar y mwyaf bregus mewn cymdeithas.

Yn gywir,

Sioned Jacques

Swyddog Datblygu Cymuned CILIP Cymru Wales-
CILIP Cymru Wales Community Development Manager
**Email/Ebost**: Sioned.Jacques@cilip.org.uk
Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg
Happy to communicate in Welsh or English

1. Welsh public library standards: annual reports 2021 to 2022 (gov.wales)
2. Welsh Index of Multiple Deprivation (full Index update with ranks): 2019 | GOV.WALES
3. Public library service annual report 2019 to 2020: Denbighshire | GOV.WALES

CILIP CYMRU WALES Ar gyfer gweithwyr llyfrgell a gwybodaeth For library and information professionals

+44 (0)20 4513 2831

info@cilip.org.uk

www.cilip.org.uk

Denbighshire Council

Dear Councillors

I am writing on behalf of CILIP Cymru Wales, to urge Denbighshire County Council to consider the impact that cuts to library hours will have on the population of Denbighshire.
CILIP, the Chartered Institute of Library and Information Professionals is the leading independent voice for the UK's information, knowledge management and library profession.

Public libraries are a statutory duty under the Public Libraries and Museums Act 1964 and deliver on all seven long-term well-being goals set out in the statutory duty of the Well-being Future Generations (Wales) Act 2015.

Public libraries are essential in providing access to books, improving literacy in both Welsh and English, providing core skills for all ages, tackling social isolation, and supporting mental health and wellbeing. Libraries play a key role in supporting the Council's current digital exclusion strategy by providing free access for people unable to get online at home, delivering substantial democratic, social, and economic benefits to citizens and communities, as well as helping people to search and apply for jobs and welfare. Libraries have also been essential warm spaces during the current cost of living crisis.

According to the National Literacy Trust, 1 in 8 adults in Wales lack basic literacy skills. By failing to provide adequate funding for local library services which support digital access and basic skills, Denbighshire Council risks permanently leaving people behind in today's Digital Economy.
A key service, offered in all Denbighshire libraries is digital inclusion – access to free use of the internet and computers. In the Welsh Public Library Standards Report for 2021-2022[1] libraries are a key partner in the delivery of Denbighshire County Council's project to reduce digital exclusion. If the proposed cuts are implemented there will be a considerable impact on the Council's ability to reduce digital exclusions as well as improve basic literacy skills. This will result in the education and economic gap of the authority increasing, particularly in those areas of the county that are already economically disadvantaged, such as Rhyl[2].

In the Welsh Public Library Standards Report for 2021-2022[1] Denbighshire Libraries fully met all 12 of the core entitlements. One core entitlement is to "provide access to a range of services, activities and resources that support learning, personal development and well-being" for all in society including the vulnerable, the elderly, children and individuals and groups with special needs. Denbighshire Libraries work closely with a number of organisations and provide a number of services and activities that give early intervention or prevention for poverty, ill-health, etc.

The reduction in hours may provide short-term saving solutions; however, benefits of the libraries support for health and well-being and digital access will be greatly reduced resulting in an increase in the community's demand for other Council services and therefore an increase in long term costs for those services.

In the Welsh Public Library Standards Report for 2019-2020[3] Denbighshire celebrates that library opening hours have remained largely the same as when reporting for the first time on the

Framework. The proposed cuts to hours would mean Denbighshire will no longer be able to report that they have met these criteria in full.

Although we applaud Denbighshire Council's decision not to close libraries, we would appeal for them to reconsider a 50% reduction in opening hours as this will impact the most vulnerable in society.

Yours sincerely,

Sioned Jacques

Swyddog Datblygu Cymuned CILIP Cymru Wales-
CILIP Cymru Wales Community Development Manager
**Email/Ebost**: Sioned.Jacques@cilip.org.uk
Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg
Happy to communicate in Welsh or English

1. Welsh public library standards: annual reports 2021 to 2022 (gov.wales)
2. Welsh Index of Multiple Deprivation (full Index update with ranks): 2019 | GOV.WALES
3. Public library service annual report 2019 to 2020: Denbighshire | GOV.WALES